# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Gwener, 9 Gorffennaf 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 9.00 - 9.10 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED MAI 2021.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 18 Mai, 2021 yn gofnod cywir.**

## 3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/Yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i benodiad i'r Pwyllgor Rheoli sy'n goruchwylio holl Unedau Cyfeirio Disgyblion Awdurdod Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Bigyn**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Andre McPherson |
| **Ffederasiwn Llangain/Llansteffan a Bancyfelin**<br>(4 lle gwag – 5 enwebiad) | Y Cynghorydd Carys Jones<br>Mr G. Edwards<br>Mr H Iorwerth<br>Mrs N Pejsak |

| | |
|---|---|
| **Stebonheath**<br>(2 le gwag – 2 enwebiad) | Mrs R De Filipo<br>Mrs K Marson |

**PENDERFYNWYD HEFYD wneud y penodiad canlynol i'r Pwyllgor Rheoli sy'n goruchwylio holl Unedau Cyfeirio Disgyblion Awdurdod Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin**

| Penodi Aelod o'r Awdurdod Lleol i Bwyllgor Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion | Penodiadau |
|---|---|
| **Pwyllgor Rheoli sy'n goruchwylio holl Unedau Cyfeirio Disgyblion Awdurdod Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin**<br>(1 lle gwag - 1 enwebiad - o 1 Medi 2021) | Ms J Antoniazzi – (Swyddog Arweiniol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) |

____________________________________ _____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**